

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ebrill 3ydd, 2014 yn Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Dafydd Williams, (Cadeirydd); John Williams, (Is Gadeirydd); Margaret Griffith; William Ifor Hughes; Brian W Ifans; Aled Lloyd Evans; Alwen Evans; Ifor Wyn Davies; Naomi Jones; Anwen Jones a'r Clerc.

1 Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Marian Evans; Trefor W Jones; Elis Gwyn Jones; Thomas Prys Jones a Gwilym M Thomas.

Ymweliad Mr Alun Jones o Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd. Croesawyd Mr Jones gan y Cadeirydd oedd wedi dod i'r Cyngor i drafod y Cynllun Rheoli'r Traethlin.

Soniodd am nifer o gynlluniau, yn cynnwys gosod cerrig i atgyfnerthu'r tywod ar draeth Abererch a gwaith ar draeth Crugan, Llanbedrog. Holwyd Mr Jones am y gwaith oedd wedi bod yn mynd ymlaen ger Ty'n Morfa ond nid Cyngor Gwynedd fu'n gweithio yma. Dywedodd Mr Jones mai'r prif orchwyl fydd dal y llinell dros y 25 mlynedd nesaf, bod grant o £400,000- wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru a soniodd am ran y Cyngor Cymuned i rannu'r wybodaeth am y datblygiadau wrth y gymuned leol.

Diolchwyd i Mr Jones am ei gyflwyniad a'i atebion i'r cwestiynau ofynnwyd.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor llawn, Mawrth 6ed, 2014 a chyfarfod Is Bwyllgor Safle'r We gyfarfu yr un noson.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Y Cyngorwyr William Ifor Hughes, fel blaenor ac Ifor Wyn Davies, fel aelod, yn datgan buddiant personol yng nghais Capel Pencaenewydd am gymorth ariannol, rhif 14 ar y rhaglen waith. Y Cyngorwyr Aled Lloyd Evans yn datgan buddiant personol yn y drafodaeth ar y Lôn Goed, rhif 5 ar y rhaglen waith gan ei fod yn berchennog ar ran o'r Lôn Goed, ond ddim yn rhan o'r Lôn Goed fydd yn cael ei thrafod heno.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth; parcio Penygroes, Llanystumdwy. Derbyniwyd yr ateb bod y Cyngor Sir am drefnu i swyddog ymweld â r safle gan roi ystyriaeth i osod arwydd yno ond na fyddai gan yr arwydd unrhyw bwerau gorfodaeth.

2. Rheoleiddio, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Troadau Gwiga, Rhoslan. Penderfynwyd derbyn y llythyr yn dweud bod y Cyngor Sir yn gweithio ar gynllun arwyddion er mwyn amlygu'r troad yn fwy effeithiol. Yn ogystal bydd y cynllun yn cynnwys arwynebedd wrth-lithriad ac y byddant yn cyd-gordio'r gwaith gyda'r Adran Priffyrdd ond ar hyn o bryd nid oes rhaglen bendant ar gyfer hyn.

3. Gwasanaeth Cyfreithiol; Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Ddi Ddosbarth ger Llwyn Celyn, Llangybi ac ail rybudd. Derbyniwyd er gwybodaeth.

4. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; bin sbwriel aml bwrpas ger bedd David Lloyd George. Roedd y Cyngorwyr yn anafodlon iawn bod Cyngor Gwynedd wedi tynnu'r hen bolyn oedd yn cynnal y bin dal baw cŵn gwreiddiol a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu eto yn gofyn i fin dal baw cŵn gael ei osod yn ôl ger mynedfa'r bedd, nad oedd yn fwriad o gwbl cael bin yn ymyl y bont YN LLE ond yn YCHWANEGOL at y ddarpariaeth oedd yno yn barod.

5. Rheoleiddio; Gwasanaeth Amgylcheddol, Llwybrau Cyhoeddus y Gymuned.

Y Lôn Goed - Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Gyngor Gwynedd roi pwysau ar y tîrfeddiannwyr/perchnogion y Lôn Goed i lanhau eu ffosydd. Yn ogystal i hysbysu'r Cyngor Sir bod y Cyngor yma yn erbyn uwchraddio'r Lôn Goed i lwybr ceffyl.

Llwybr rhif 54A, Hen Ffordd Abercin. Deallwyd bod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu gyda Dŵr Cymru ond mae angen i bawb sydd yn defnyddio'r ffordd yma ddod ynghyd i drafod a gallai'r Cyngor Sir gynnig hyd at 5% o gost y gwaith sydd angen ei wneud. Gofynnwyd i'r Clerc anfon y wybodaeth yma ymlaen at Mr Sion Jones.

Llwybr rhif 54, Bopnt Fechan/Clawdd Llanw. Derbyniwyd yr ateb bod Cyngor Gwynedd wedi anfon y wybodaeth am y camfeydd sydd angen eu hatgyweirio ymlaen at Network Rail.

6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion yn y Gymuned. Derbyniwyd.

7. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Rhaglen Waith Trafnidiaeth a Phriffyrdd mis Ebrill 2014. Penderfynwyd derbyn.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned.

1. Cais rhif C14/0210/41/AM – Cais amlinellol i ddymchwel yr adeiladau presennol a chodi 13 o dai (ail gyflwyniad yn dilyn gwrthodiad cais C13/0599/41/AM; Site of former Afon Wen Laundry, Afonwen. Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais yma; mae tu allan i ffiniau datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol ac mae'r safle yn safle ddatblygu ddiwydiannol.

2. Cais rhif C14/0282/41/LL – Codi porth a garej ar wahân a newidiadau mewnol i storfa gardd presennol; Moneifion, 15 Ty'n Rhos, Chwilog. Cefnogwyd.

3. Cais rhif C14/0250/41 LL – Dymchwel adeiladau allanol a chodi garej-ystafell westai ac ystafell wydr unllawr ac ystafell aml-bwrpas; Bodelen, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

7. Gohebiaeth rhwng Mr Iwan Edgar ynglylch Adroddiad Asesiad Iaith (Gwynedd a Môn) yng nghyswllt y Cynllun Datblygu, ag Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd er gwybodaeth.

8. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch Gwasanaeth Meddyg Teulu y tu allan i oriau a materion eraill. Penderfynwyd derbyn.

9. Safle'r We. Penderfynwyd i'r Is Bwyllgor Sefydlu Safle Gwe i'r Cyngor gario ymlaen gyda'u gwaith am chwe mis. Deallir y bydd y safle yn "fyw" o Ebrill 14eg ymlaen.

10. Materion yn y gymuned

1. Llanystumdwy;

a. Cyflwr y lôn rhwng 2, Ty'n Giat a Chae Llo Brith. Llawer o dyllau ond mae un twll yn fawr iawn a pheryglus. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

b. Coeden yn y winllan ar y dde rhwng mynedfa Cefn y Maen a Fferm Bron Eifion wedi rhannol syrthio ac yn pwyso ar frigyn coeden wedi pydru yr ochr arall i'r lôn. Sefyllfa beryglus iawn. Gofynnwyd i'r Clerc anfon y wybodaeth ymlaen i Gyngor Gwynedd.

2. Chwilog.

Cyflwr Ffordd y Fynwent. Gofynnwyd i'r Clerc lythyru eto fyth gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd.

3. Llanarmon.

Arwyddion i ddynodi eich bod wedi cyrraedd Llanarmon. Gofynnwyd i'r Clerc ofyn eto i Gyngor Gwynedd.

4. Pencaenewydd.

Cais i gael glanhau yr arwydd am Bencaenewydd wrth Lodge Trallwyn. Gofynnwyd i'r Clerc anfon y gwyn ymlaen at Gyngor Gwynedd

11. Materion sydd heb gael ymateb ar ôl gohebu yn eu cylch ers dros ddau fis. Dal heb gael sylw mae'r marciau ffordd ochr Cricieth i ffordd osgoi Llanystumdwy. Gofynnwyd i'r Clerc holi eto.

12. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2014 ymlaen.

a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.

b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.

c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.

ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.

d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.

Gofynnwyd i'r Clerc anfon at ddau ymgymwrwr i ofyn iddynt gynnig prisiau am wneud y gwaith; prisio pob llwybr ar wahân a'u rhoi mewn amlen gyda llwybrau arno erbyn 12pm, ddydd Gwener, Ebrill 18fed, 2014. Y Cadeirydd/Is Gadeirydd i agor yr amlenni gyda'r Clerc.

Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.

18. Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus. Derbyniwyd er gwybodaeth.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.